

Plant sydd ag Anghenion Arbennig

Mae Deddf Addysg 1993 yn gosod cyfrifoldebau ar Gyrrff Llywodraethu i ddarparu'n briodol ar gyfer disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'n bwysig felly ein bod yn ceisio adnabod anghenion ychwanegol yn gynnar er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r anghenion hynny cyn gynted â phosibl fel bod bo plentyn yn cael cyfle i gael mynediad llawn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. I'r perwyl hyn bydd yr ysgol yn gweithredu yn unol â threfniadau asesu arferol a ddefnyddir yn fewnol a bydd sylwadau am Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Corff Llywodraethu.

Daeth côd ymarfer newydd i rym yn Ebrill, 2002, sef **Côd Ymarfer AAA Cymru**.

Yn sgîl hynny diweddarwyd polisi ADY yr ysgol hon. Y mae crynodeb o'r polisi hwnnw i'w weld isod.

Pan fo athro neu athrawes yn bryderus ynglŷn â diffyg cynnydd academiaidd plentyn yn yr ysgol, bydd yn mynegi'r pryder wrth y rhieni. Yna, cofnodir enw'r disgybl ar gofrestr AAY yr ysgol.

Y mae dwy ran i'r gofrestr ac maent fel a ganlyn:

a) Gweithredu gan yr ysgol.

b) Gweithredu gan yr ysgol a mwy - gall hyn arwain at Asesiad Statudol o anghenion y disgybl a gall hyn, yn ei dro, arwain at ffurfio Datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer y plentyn hwnnw.

Gall plentyn gael ei osod ar gofrestr ADY os oes ganddo anhawster mewn un o'r meysydd canlynol:

- Gwybodaeth a dysgu
- Cyfathrebu a rhyngweithio
- Ymddygiad/emosiynol/cymdeithasol
- Anghenion synhwyrdd a/neu corfforol

Paratoir Cynlluniau Addysg Unigol dwy waith y flwyddyn mewn ymgynghoriad â'r disgybl/rhieni. Ar ddiwedd pob cyfnod o chwe mis asesir cynnydd y disgybl dan sylw a deuir i benderfyniad ynglŷn â pha gamau pellach y dylid eu cymryd.

Ystyrir a ddylid symud y plentyn ymlaen i'r cam nesaf, a ddylai'r plentyn aros ar yr un cam neu a ddylid ei dynnu oddi ar y gofrestr yn gyfan gwbl.